



Ministry  
of Justice

# **Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol**

**Ymgynghoriad atodol 2022**

Mehefin 2022

CP 688





Ministry  
of Justice

## **Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol**

Ymgynghoriad atodol 2022

Cyflwynwyd i Senedd y Deyrnas Unedig  
gan y Dirprwy Brif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd  
Gwladol dros Gyfiawnder  
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2022



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:  
[nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/official-documents](http://www.gov.uk/official-documents)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad  
canlynol:[cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-3193-8

E02721419                      06/22

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi'u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

- At:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at y cyhoedd, dioddefwyr a goroeswyr, grwpiau dioddefwyr, academyddion ac arbenigwyr clinigol. Rydym hefyd yn croesawu sylwadau gan weithwyr proffesiynol ym maes cyfiawnder troseddol, iechyd, lles, awdurdodau lleol a'r sector elusennau.
- Hyd:** O 9 Mehefin 2022 hyd at 5 Awst 2022
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:** Vulnerability Policy Unit  
Victims and Vulnerability Policy Directorate  
Ministry of Justice  
7<sup>th</sup> Floor  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk)
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 5 Awst 2022 at:  
Vulnerability Policy Unit  
Victims and Vulnerability Policy Directorate  
Ministry of Justice  
7<sup>th</sup> Floor  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk)
- Papur ymateb:** Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2022 yn: <https://consult.justice.gov.uk/>



# Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>3</b>
<b>Crynodeb gweithredol</b>	<b>5</b>
Ein dull o weithredu	6
<b>Cyflwyniad</b>	<b>8</b>
<b>Cefndir yr ymgynghoriad hwn</b>	<b>9</b>
<b>Y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben: diwygiadau posibl</b>	<b>12</b>
Y rheol a sut mae'n gweithio	12
Galwadau i ddiwygio'r rheol	13
Diwygio posibl y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben	15
<b>Holiadur</b>	<b>22</b>
Y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben	22
<b>Gwybodaeth amdanoch chi</b>	<b>23</b>
<b>Manylion cyswllt/Sut i ymateb</b>	<b>24</b>
Cwynion neu sylwadau	24
Copiâu ychwanegol	24
Cyhoeddi ymateb	24
Grwpiau cynrychiadol	24
Cyfrinachedd	25
<b>Egwyddorion ymgynghori</b>	<b>26</b>
<b>Atodiad A: Datganiad am Gydraddoldebau</b>	<b>27</b>





# Rhagair

Mae'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun) yn bodoli i gefnogi pob dioddefwr cymwys sydd wedi dioddef troseddau treisgar ac sydd wedi dioddef yr anafiadau mwyaf difrifol. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol ac yn deg, mae'r Cynllun yn cydbwysu'r ystyriaeth a roddir i anghenion ymgeiswyr unigol o fewn set gyffredinol a thryloyw o reolau a meini prawf cymhwysedd. Rydym yn gwybod ei fod yn gwneud hyn yn dda ar y cyfan, ac yn 2020-21 roedd cyfanswm y taliadau i gefnogi proses adfer dioddefwyr yn fwy na £153 miliwn.

Roeddem wedi ymrwmo i adolygu'r Cynllun yn ei gyfanrwydd, ac roedd y Cylch Gorchwyl yn amlinellu y byddai'n archwilio a yw'r Cynllun yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn adlewyrchu natur newidiol troseddau treisgar ac yn cefnogi dioddefwyr yn effeithiol yn eu proses adfer.<sup>1</sup> Mae ein hadolygiad wedi canolbwyntio ar ba mor hawdd yw cael gafael ar iawndal, a'n huchelgais o hyd yw gwneud y Cynllun yn symlach ac yn haws i bobl ei ddeall ac i'w gymryd ymlaen. Bwriad y cynigion y buom yn ymgynghori yn eu cylch yn ystod haf 2020 oedd cyflawni hyn, gan gadw at y brif egwyddor bod iawndal dan y Cynllun yn gydnabyddiaeth bwysig a chyhoeddus o ddioddefaint dioddefwyr sy'n cael eu hanafu'n ddifrifol a theuluoedd sy'n colli eu hanwyliaid o ganlyniad i droseddau treisgar.

Cawsom 96 o ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion, a hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i anfon eu barn atom. Rydym wedi ystyried yn ofalus y sylwadau sy'n berthnasol i'r holl gynigion a'r pynciau sy'n cael sylw yn yr ymgynghoriad.

Fodd bynnag, cyn i ni allu cwblhau'r adolygiad, rydym yn gofyn am farn am un o'r rheolau cymhwysedd yn y Cynllun; y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben, fel y'i gelwir, sy'n atal unigolion sydd wedi cyflawni gweithredoedd anghyfreithlon difrifol rhag elwa o iawndal a ariennir gan y wladwriaeth. Gwnaed newidiadau i'r rheol yn 2012, yn benodol cyflwyno elfen eithrio, a mynegwyd pryderon ynghylch eu heffaith ar rai ymgeiswyr. Ym mis Gorffennaf 2021<sup>2</sup>, penderfynodd y Goruchaf Lys fod y rheol yn gyfreithlon ac yn gymesur, a dywedodd fod y dull eithrio yn un derbyniol a'i fod yn gallu arwain at gysondeb ac eglurder. Nododd y Goruchaf Lys hefyd fod gan y deddfwr hawl i fabwysiadu Cynllun gyda rheolau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer penderfynu ar hawl i gael iawndal a ariennir gydag arian cyhoeddus. Mewn achos ar wahân<sup>3</sup> y penderfynwyd yn ei gylich yn fuan wedyn, canfu'r Uchel Lys nad oeddem wedi bodloni disgwyliad dilys o ran diwygio'r rheol

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, [http://data.parliament.uk/DepositedPapers/Files/DEP2018-1283/terms\\_of\\_reference\\_CICS\\_Review.pdf](http://data.parliament.uk/DepositedPapers/Files/DEP2018-1283/terms_of_reference_CICS_Review.pdf)

<sup>2</sup> A a B v Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ac arall [2021] UKSC 27, paragraff 90, Gorffennaf 2021

<sup>3</sup> R (Mitchell) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder [2021] EWHC 2248 (Gwein), Awst 2021

euogfarnau sydd heb ddod i ben gan nad oeddem wedi gofyn cwestiwn penodol ynghylch a ddylid ei diwygio yn unol ag argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gamdrin Plant yn Rhywiol yn 2018.

Felly, rydym yn cyhoeddi'r ymgynghoriad atodol hwn i wahodd safbwyntiau am ddiwygio'r rheol. Trafodir diwygiadau posibl ac er bod opsiwn o hyd i beidio â newid, rydym yn edrych o'r newydd ar y rheol fel sy'n ofynnol gan ddyfarniad yr Uchel Lys.

Yn dilyn yr ail ymgynghoriad hwn, edrychwn ymlaen at rannu ein casgliadau a'n cynigion am y cynllun yn ei gyfanrwydd yn dilyn ein hadolygiad cynhwysfawr, er mwyn i ddiodefwr, drwy'r Cynllun, allu parhau i gael iawndal i'w helpu i oresgyn eu hanafiadau a symud ymlaen gyda'u bywydau.



Tom Pursglove AS

Y Gweinidog dros Gyfiawnder a Mynd i'r Afael ag Ymfudo Anghyfreithlon

# Crynodeb gweithredol

1. Yn ein hymgyngoriad yn 2020, fe wnaethom gadarnhau mai pwrpas craidd y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun) yw cydnabod, drwy iawndal, y niwed a ddioddefwyd gan ddiodefwr a anafwyd o ganlyniad i droseddau treisgar. Mae'r Cynllun yn un cyffredinol, ac er y bydd pob unigolyn a phob achos yn wahanol, rhaid iddo weithio'r un fath i bob un sy'n dioddef trosedd dreisgar. Felly, mae'n hanfodol bod pob ymgeisydd yn dilyn yr un meini prawf cymhwysedd, gofynion a thariffau anafiadau, a bod pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y rhain. Mae hyn yn sicrhau nad oes hierarchaeth o ddiodefwr, ac y gellir gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyson, deg a thryloyw.
2. Roedd yr ymgynghoriad yn 2020<sup>4</sup> yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata llwyth achosion (oddeutu 75,000 o hawliadau a gafodd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol rhwng 1 Ionawr 2016 a 1 Ionawr 2019). Rhoddodd hyn ddarlun manwl i ni sut roedd y Cynllun yn gweithio ac effeithiau gwahanol reolau ar ddiodefwr troseddau treisgar. Yn ei sgil, roeddem yn deall yn well ar gyfer pa anafiadau yr hawliwyd, gyda'r mwyafrif, 65%, yn digwydd yn sgil ymosodiad gydag arf neu heb arf, a 25% yn anafiadau rhywiol. Fe wnaethom ddysgu mwy hefyd am y rhesymau pam nad oedd hawliadau'n llwyddiannus: y prif resymau dros wrthod oedd nad oedd yr anaf yn y tariff (29% o'r achosion), dim trosedd o drais (15%), methu cydweithredu (15%), ac euogfarnau sydd heb ddod i ben (8%).
3. Wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad, cawsom ein harwain gan ystyriaeth ofalus o'r ffactorau canlynol: symlrwydd a thryloywder; gwell profiad a chanlyniadau i ymgeiswyr; fforddiadwyedd a chynaliadwyedd ariannol; goblygiadau gweithredol; ac a oes modd cymhwyso newidiadau'n deg ac yn gyson ar draws y Cynllun heb gael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp penodol. Llwyddodd y ffactorau hyn, ynghyd â'r dystiolaeth o'r dadansoddiad o lwyth achosion, i'n helpu i benderfynu, a thrafod yn yr ymgynghoriad, y newidiadau i'r Cynllun a gyflwynwyd gennym a pham nad oeddem yn cynnig newidiadau mewn rhai elfennau, gan gynnwys i'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac wrth i ni ystyried ein hymateb, roedd dau benderfyniad barnwrol pwysig; ynghylch tegwch a chymesuredd y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben fel y'i diwygiwyd yn 2012, a'r ffordd roeddem wedi ystyried diwygio'r rheol honno yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

---

<sup>4</sup> Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2020 - Y Weinyddiaeth Gyfiawnder - Citizen Space

4. Roedd y Strategaeth Dioddefwyr drawslywodraethol a gyhoeddwyd ar 10 Medi 2018 yn nodi ymateb ar draws y system cyfiawnder troseddol i wella'r gefnogaeth a gynigir i ddiodefwr troseddau. Ynndi, gwnaethom ymrwymo i ddileu'r rheol byw o dan yr un to mewn achosion cyn 1979, ac fe wnaethom yn 2019 hynny, ac i gwblhau adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun. Fis Awst y llynedd, datganodd yr Uchel Lys fod telerau'r Strategaeth Dioddefwyr wedi creu disgwyliad dilys o ymgynghori ar ddiwygio'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben, ac nad oeddem wedi bodloni'r disgwyliad hwnnw gan nad oeddem wedi gofyn cwestiwn penodol ar y mater. Mae gorchymyn yr Uchel Lys yn mynnu bod ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal ynghylch a ddylid diwygio'r rheol yn unol ag argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (yr Ymchwiliad), ac y dylid gwneud penderfyniad ar newidiadau i'r rheol ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad.
5. Roedd Argymhelliad 5 Adroddiad Interim yr Ymchwiliad<sup>5</sup> yn cynnig y dylid diwygio'r Cynllun i ddileu'r rhwystrau a wynebir gan y sawl sydd wedi dioddef ac sy'n goroesi cam-drin plant yn rhywiol. Argymhellodd Cadeirydd a Phanel yr Ymchwiliad newidiadau i'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben, fel nad yw dyfardaliadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae euogfarnau troseddol ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u profiad o gael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant, ac y dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau.
6. Yn y gwaith manwl a wnaethom i gyfrannu at ymgynghoriad 2020, fe wnaethom ystyried pryderon a godwyd ynghylch yr heriau a wynebodd pobl a gafodd eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant yn ddiweddar a heb fod yn ddiweddar wrth geisio cael iawndal. Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom ddisgrifio sut roeddem, drwy'r adolygiad, wedi edrych i weld a yw'r rheolau cymhwysedd presennol, gan gynnwys y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben, yn cael effaith negyddol anghymesur ar ddiodefwr a gafodd eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant.
7. Yn dilyn y gorchymyn a wnaed gan yr Uchel Lys, rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ynghylch a ddylid diwygio'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben, gan wahodd barn benodol am ddiwygiadau posibl fel yr un a argymhellwyd gan yr Ymchwiliad, ochr yn ochr â'r opsiwn o beidio â diwygio.

## Ein dull o weithredu

8. Fel rhan o'n hadolygiad, fe wnaethom ystyried yn ofalus ystod o ddiwygiadau posibl i'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben, gan gynnwys newidiadau a argymhellwyd gan randdeiliaid, er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd ynghylch annhegwch honedig ac effeithiau anghymesur y rheol ar rai ymgeiswyr. Fe wnaethom ystyried yn

---

<sup>5</sup> Adroddiad Interim yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, adran 5.2, Ebrill 2018  
<https://www.iicsa.org.uk/publications/inquiry/interim>

benodol y pwyntiau a godwyd a'r argymhellion a wnaed gan gyn Gomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr, y Farwnes Newlove yn ei hadroddiad ar iawndal.<sup>6</sup> Fe wnaethom hefyd ystyried canfyddiadau ac argymhellion cynnar yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, ac edrych ar faterion a godwyd gan y Fonesig Vera Baird, Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr<sup>7</sup>, ac mewn adroddiadau gan y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin yn Rhywiol yn ystod Plentyndod.

9. Ar ôl ystyried yn ofalus, ni wnaethom gynnig gwneud unrhyw newid i'r rheol. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr i ymgynghoriad 2020 wedi ailddatgan amrywiaeth eang o bryderon ynghylch sut mae effaith y rheol yn effeithio ar ymgeiswyr sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben am droseddau a allai fod wedi dilyn profiadau a digwyddiadau trawmatig mewn bywyd.
10. Mae cynnal yr ymgynghoriad atodol hwn yn caniatáu trafodaeth bellach ar ddiwygiadau i'r rheol roeddem wedi'i hystyried yn ystod yr adolygiad cyn dod i'r casgliad na fyddai unrhyw newid yn cael ei gynnig. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gyflwyno esemptiadau i'r rhan eithrio o'r rheol, diwygio telerau'r rhan eithrio, neu ddileu'r rhan eithrio o'r rheol, fel na fyddai unrhyw hawliadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben.
11. Bydd penderfyniad newydd ynghylch a ddylid diwygio'r rheol, ac os felly sut, yn cael ei wneud ar ôl ystyried yn ofalus yr holl safbwyntiau a'r sylwadau a gyflwynir gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn sy'n ymwneud yn benodol â'r rheol, ac ymatebion i'r ymgynghoriad cynharach yn 2020 a oedd yn mynd i'r afael â hyn.

---

<sup>6</sup> 'Compensation without Re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation, Ionawr 2019 - <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/compensation-without-re-traumatisation-the-victims-commissioners-review-into-criminal-injuries-compensation/>

<sup>7</sup> Struggling for Justice: Entitlements and Experiences of Bereaved Families Following Homicide Abroad, Hydref 2019 – <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/struggling-for-justice-entitlements-and-experiences-of-bereaved-families-following-homicide-abroad/>

## Cyflwyniad

12. Mae'r papur hwn yn nodi newidiadau posibl yr ymgynghoriad i'r rheol 'euogfarnau sydd heb ddod i ben' fel y'i gelwir, sy'n atal unigolion sydd wedi cyflawni gweithredoedd anghyfreithlon difrifol rhag elwa o iawndal a ariennir gan y wladwriaeth.
13. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at bobl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan adlewyrchu cwmpas daearyddol y Cynllun. Mae gennym ddi-ddordeb arbennig mewn clywed gan ddi-ddfwyr a goroeswyr; grwpiau, gwasanaethau ac elusennau di-ddfwyr; academyddion; cynrychiolwyr o'r sector cyfreithiol a gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys pawb na chau neb allan, a byddwn yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur hwn, neu sydd â safbwynt yn ei gylch.
14. Mae papur ymgynghori Saesneg ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-supplementary-consultation>
15. Mae Asesiad o'r Effaith wedi'i atodi. Mae hyn yn dangos bod y diwygiadau posibl a amlinellir yn y papur ymgynghori hwn yn debygol o effeithio'n benodol ar ddi-ddfwyr troseddau treisgar sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben a, lle bo hynny'n berthnasol, eu perthnasau sy'n gymwys; y rheini sy'n cynrychioli neu'n cynorthwyo ymgeiswyr gan gynnwys elusennau di-ddfwyr a gwasanaethau i ddi-ddfwyr; yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, GLITEM a Llywodraeth yr Alban. Byddai unrhyw newidiadau i'r rheol yn debygol o arwain at gostau ychwanegol i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol a GLIThEM.
16. Croesewir sylwadau am yr Asesiad o'r Effaith yn fawr iawn.

## Cefndir yr ymgynghoriad hwn

17. Adolygwyd y Cynllun o'r blaen yn 2012, ac yn dilyn hynny gwnaed amrywiol newidiadau gan gynnwys i'r rheol cymhwysedd ar gyfer euogfarnau sydd heb ddod i ben. Yn unol â'r rheol yng Nghynllun 2012, nid yw ymgeisydd yn gymwys i gael iawndal os oes ganddo euogfarn sydd heb ddod i ben sydd wedi arwain at un neu fwy o nifer o ddedfrydau penodedig o garchar neu ddedfrydau cymunedol. Bwriad y rheol yw atal unigolion sydd wedi cyflawni gweithredoedd anghyfreithlon difrifol rhag elwa o iawndal a ariennir gan y wladwriaeth, er mwyn adlewyrchu maint y niwed a wneir i eraill a chost ymddygiad troseddol i gymdeithas.
18. Mewn Cynlluniau cyn 2012, roedd gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ddisgresiwn yn ôl achosion unigol i dalu dyfarndaliadau i rai ag euogfarnau a oedd heb ddod i ben lle roedd rhesymau eithriadol dros beidio â dal dyfarndal yn ôl neu leihau dyfarndal. Cadwyd disgresiwn yn y Cynllun cyfredol ar gyfer rhai ymgeiswyr ag euogfarnau lle nad oedd y ddedfryd a osodwyd yn un o'r rhai a restrir yn Atodiad D, megis rhyddhau neu gosb ariannol.
19. Roedd y Strategaeth Dioddefwyr drawslywodraethol a gyhoeddwyd ar 10 Medi 2018 yn nodi ymateb ar draws y system cyfiawnder troseddol i wella'r gefnogaeth a gynigir i ddiodefswyr troseddau. Ym Mhennod 1: "Overarching improvements to victims' experience", nodwyd bod y Cynllun yn un elfen o ddeddfwriaeth allweddol sydd eisoes ar waith i gefnogi diodefswyr, a'r her yw sicrhau bod iawndal yn cyd-fynd â'r ddealltwriaeth sy'n newid o droseddau. Cydnabuwyd bod yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (yr Ymchwiliad) wedi gwneud argymhelliad i newid y rheol ar gyfer diodefswyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol.
20. Yn y Strategaeth Dioddefwyr, cafodd ymrwymiad ei wneud i adolygu'r Cynllun. Cafodd materion penodol i'w hystyried yn yr adolygiad, gan gynnwys y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben, eu nodi yn y Cylch Gorchwyl<sup>8</sup> a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018. Roedd y Cylch Gorchwyl hefyd yn dweud y byddai'r adolygiad yn rhoi ystyriaeth lawn i ganfyddiadau'r Ymchwiliad.
21. Cafodd yr adolygiad ei gynnal, ac mae'n cael ei grynhoi yn nogfen ymgynghori Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2020<sup>9</sup>. Fel y nodwyd yn y paragraffau hynny, cafodd yr adolygiad ei lywio gan ddadansoddiad manwl o tua 75,000 o hawliadau a gafodd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol rhwng 1

<sup>8</sup> Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, [http://data.parliament.uk/DepositedPapers/Files/DEP2018-1283/terms\\_of\\_reference\\_CICS\\_Review.pdf](http://data.parliament.uk/DepositedPapers/Files/DEP2018-1283/terms_of_reference_CICS_Review.pdf)

<sup>9</sup> Ym mharagraffau 7 i 16, Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2020 - Y Weinyddiaeth Gyfiawnder - Citizen Space

Ionawr 2016 a 1 Ionawr 2019. Gwnaeth yr adolygiad ystyried gwybodaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid a phartïon a oedd â buddiant, ac ystyried yn benodol ganfyddiadau cynnar yr Ymchwiliad yn ogystal ag adroddiadau Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr, a'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentyndod.

22. Yn y ddogfen ymgynghori, fe wnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau a'n casgliadau ar draws yr ystod eang o bynciau a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad, a nodi cynigion ar gyfer diwygio hefyd. Ar gyfer pob un o'r meysydd lle cynigiwyd newid, roedd y ddogfen yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn nodi'r achos dros newid.
23. Cafwyd adran (paragraffau 100-106) a oedd yn ymdrin yn fanwl â mater euogfarnau sydd heb ddod i ben a'r rheol eithrio mewn perthynas ag euogfarnau o'r fath. Eglurwyd y rheol bresennol a sut mae'n gweithio, archwiliwyd rhai o'r anawsterau o gyflwyno a gweinyddu disgresiwn fel y cynigiwyd gan yr Ymchwiliad ac eraill, a chyflwynwyd y rhesymeg dros gadw'r rheol heb ei newid. Roedd y rhesymeg honno wedi'i seilio ar y casgliad nad oedd yn bosibl ymrwymo i wneud unrhyw newid i'r rheol heb fod hynny'n arwain at gryn wahaniaethu posibl a her weithredol. Ni chafodd unrhyw awgrym ar gyfer newid ei ddatblygu, ac felly nid oedd cynnig y gellid gwahodd safbwyntiau arno. Fodd bynnag, gan gydnabod efallai y bydd pobl yn dal i ddymuno rhoi sylwadau ar rannau o'r Cynllun nad oes cynigion ar eu cyfer, roedd y ddogfen ymgynghori yn gyfle i ymgynghoreion fynegi barn am unrhyw agwedd ar y Cynllun; roedd Cwestiwn 17 yn gofyn, "Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Cynllun?". Agorodd yr ymgynghoriad ar 16 Gorffennaf 2020 a daeth i ben ar 9 Hydref 2020. Roedd dros chwarter o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi rhoi sylwadau ynghylch y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben. Roedd rhai sylwadau wedi'u cynnwys mewn ymatebion naratif ac roedd rhai wedi'u gwneud o dan Gwestiwn 17.
24. Ym mis Gorffennaf 2021, mewn apêl yn dilyn achos adolygiad barnwrol a oedd yn herio cyfreithlondeb y rheol, penderfynodd y Goruchaf Lys fod gan y deddfwr hawl i fabwysiadu cynllun, gyda'r nod o ddyrannu adnoddau cyfyngedig i ddiodeffwyr fel ffordd o fynegi cydymdeimlad y cyhoedd, sy'n gweithredu drwy reolau wedi'u diffinio'n glir. Canfu'r Llys fod y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben yng Nghynllun 2012 yn deg ac yn gymesur, a'i bod yn briodol gosod rheolau a fyddai'n gwneud rhai ymgeiswyr yn anghymwys yn hytrach na chaniatáu disgresiwn cyffredinol. Fodd bynnag, ym mis Awst 2021 mewn achos ar wahân, datganodd yr Uchel Lys fod telerau'r Strategaeth Dioddefwyr wedi creu disgwyliad dilys o ymgynghori ar ddiwygio'r rheol, a bod y disgwyliad hwn wedi'i dorri wrth beidio â gofyn cwestiwn penodol ar y mater yn yr ymgynghoriad.
25. Er mwyn cydymffurfio â gorchymyn yr Uchel Lys, rydym yn awr yn cynnal ymgynghoriad pellach sy'n ymwneud yn llwyr ag a ddylid diwygio'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben, yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad neu mewn



rhyw ffordd arall. Fel y nodwyd gan y Goruchaf Lys, mater i'r Llywodraeth a'r Senedd yw pennu'r polisi a'r rheolau ar gyfer penderfynu ar hawl i gael iawndal a ariennir gan arian cyhoeddus, a dim ond ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid gwneud newidiadau i'r rheol.

# Y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben: diwygiadau posibl

## Y rheol a sut mae'n gweithio

26. Gall euogfarnau sydd heb ddod i ben olygu bod dyfarndal ymgeisydd yn cael ei leihau neu ei ddal yn ôl, yn dibynnu ar y ddedfryd a roddwyd am y drosedd a gyflawnwyd. Mae'r rheol bresennol, fel y mae yng Nghynllun 2012, yn darparu nad yw ymgeisydd yn gymwys i gael iawndal os oes ganddo euogfarn sydd heb ddod i ben am drosedd sydd wedi arwain at un o'r dedfrydau o garchar neu ddedfrydau cymunedol a restrir ym mharagraff 3 Atodiad D: gelwir hyn yn rheol eithrio. Mae'r rheol eithrio yn berthnasol hefyd i euogfarnau sydd heb ddod i ben lle cafodd dedfrydau sy'n cyfateb i'r rheini a restrir yn Atodiad D eu rhoi mewn gwledydd y tu allan i Brydain Fawr, ac i ymgeiswyr a geir yn euog o drosedd ar ôl gwneud cais am iawndal ond cyn iddo gael ei benderfynu'n derfynol.
27. Cyn y newid yn 2012, roedd gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ddisgresiwn yn ôl achosion unigol, i dalu dyfarndaliadau i rai ag euogfarnau a oedd heb ddod i ben lle roedd rhesymau eithriadol dros beidio â dal dyfarndal yn ôl neu leihau'r dyfarndal. Mae'r disgresiwn hwn yn dal i fodoli mewn perthynas ag euogfarnau sydd heb ddod i ben sydd wedi arwain at ddedfryd nad yw wedi'i nodi yn y rheol eithrio yng Nghynllun 2012.
28. Nid oedd y Cynlluniau cyn 2012 yn rhagnodi sut y byddai disgresiwn yn cael ei roi ar waith ac nid yw Cynllun 2012 yn gwneud hynny chwaith. Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn defnyddio system bwyntiau, y manylir arni mewn canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi, ac mae hyn yn sicrhau bod y dull gweithredu a ddefnyddir yn gyson. Mae'r pwyntiau'n seiliedig ar y math o ddedfryd a hyd y ddedfryd a roddir, a'r amser rhwng dyddiad y ddedfryd a'r cais am iawndal. Nifer y pwyntiau sy'n pennu pa ganran o ddyfarndal fydd yn cael ei dal yn ôl, a bydd deg pwynt neu fwy yn arwain at ddim dyfarndal. Mae'r system o roi pwyntiau i euogfarnau sydd heb ddod i ben er mwyn sefydlu'r lefel briodol o ostyngiad yn ddewisol. Mewn ceisiadau lle mae'r pwyntiau'n awgrymu gwrthod, caiff y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ystyried ystod o ffactorau sydd wedi'u nodi yn y canllawiau a phenderfynu rhoi dyfarndaliadau neu leihau dyfarndaliadau os oes rhesymau eithriadol.
29. Ar gyfer ymgynghoriad 2020, fe wnaethom ddarparu tystiolaeth o sut mae'r rheol yng Nghynllun 2012 wedi effeithio ar hawliadau. Dangosodd y set ddata 3 blynedd o lwyth

achosion<sup>10</sup> a ddadansoddwyd fel rhan o'r adolygiad mai'r prif reswm, mewn 8% o'r holl achosion a wrthodwyd (oddeutu 3,500 o'r 75,000 o hawliadau yn y set ddata), oedd bod gan yr ymgeisydd euogfarn a oedd heb ddod i ben. Yn ein dadansoddiad, cawsom wybod bod anafiadau rhywiol yn cyfrif am 25% o'r achosion a gafodd eu datrys yn y set ddata, a bod 12% o'r achosion a wrthodwyd oherwydd euogfarnau sydd heb ddod i ben yn achosion ymosodiadau rhywiol. Nododd hefyd fod y gyfradd sy'n cael ei gwrthod o dan y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben yn sylweddol is mewn hawliadau ymosodiadau rhywiol nag mewn mathau eraill o achosion ar 2.5%, o'i gymharu â 13.3% mewn achosion sy'n ymwneud ag ymosodiadau ag arf, 5.4% mewn achosion ymosodiadau corfforol, a 3.7% ar gyfer "mathau eraill o droseddau".

## Galwadau i ddiwygio'r rheol

30. Ers 2012, mae galwadau amrywiol wedi bod am ddiddymu'r rheol neu ddiwygio'r rheol er mwyn ailgyflwyno disgrisiwn. Weithiau, roedd y galwadau'n ymwneud â rhai grwpiau o ddiodefwyr, fel diodefwyr cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod,<sup>11</sup> math arall o gam-drin, camfanteisio neu reolaeth drwy orfodaeth,<sup>12</sup> ac mewn eraill roedd mewn cysylltiad ag amgylchiadau penodol a allai fod wedi ymwneud â'r euogfarnau, fel gorfodaeth neu drawma yn ystod plentyndod. Fe wnaethom grynhoi prif bryderon rhanddeiliaid ynghylch y rheol a'u galwadau am newid ym mharagraff 103 ymgynghoriad 2020.
31. Roedd argymhelliad yr Ymchwiliad i ddiwygio'r rheol yn rhagflaenu cyhoeddi adolygiad o'r Cynllun yn y Strategaeth Dioddefwyr ac yn ychwanegu at y corff o randdeiliaid a oedd yn llobio dros ddiwygio, a oedd yn parhau i dyfu a datblygu. Cyhoeddodd yr Ymchwiliad adroddiad interim,<sup>13</sup> a oedd yn cynnwys argymhelliad i ddiwygio'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben, fel nad yw dyfarndaliadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae euogfarn droseddol ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u profiad o gael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant,, ac y dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau. Roedd ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwnnw (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018) yn cadarnhau y byddai'r adolygiad a gyhoeddwyd yn y Strategaeth Dioddefwyr yn ystyried sut y gall y Cynllun

<sup>10</sup> Roedd tua 75,000 o hawliadau wedi dod i law'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol rhwng 1 Ionawr 2016 a 1 Ionawr 2019.

<sup>11</sup> Adroddiad Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentyndod *Survivors experience of court and applying for compensation*, Hydref 2019 - <https://www.appgsurvivorscsa.co.uk/court-compensuitment>

<sup>12</sup> 'Compensation without re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation, Ionawr 2019 - <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/compensation-without-re-traumatisation-the-victims-commissioners-review-into-criminal-injuries-compensation/>

<sup>13</sup> Adroddiad Interim yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, adran 5.2, Ebrill 2018 - <https://www.iicsa.org.uk/publications/inquiry/interim>

wasanaethu'n well y dioddefwyr a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant, ac y byddai'n edrych ar yr argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad.

32. Cafodd yr argymhelliad ei wneud cyn archwiliad manwl yr Ymchwiliad i weld a oedd iawndal a gwneud iawn ar gael ac yn hygyrch, o dan y Cynllun a thrwy ddulliau eraill, yn ystod ei ymchwiliad i Atebolrwydd a Gwneud iawn; mae'r Llywodraeth yn gyfranogwr craidd yn yr elfen ymchwilio hon ac mae wedi ymdrechu i gynorthwyo'r Ymchwiliad yn yr holl gamau. Mewn gwrandawiadau cyhoeddus (Tachwedd 2018 i Ionawr 2019) clywodd yr Ymchwiliad gan 40 o dystion, gan gynnwys swyddogion y Llywodraeth, ac aeth ati i ystyried cyfoeth o wybodaeth a thystiolaeth wrth iddo edrych ar sut y gellid gwneud profiadau a chanlyniadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol yn decach ac yn fwy effeithiol. Roedd adroddiad ymchwilio'r Ymchwiliad ym mis Medi 2019 yn cynnwys tystiolaeth gan ddiodefwyr yr effeithiwyd arnynt gan y rheol a gofynion eraill y Cynllun, ond ni wnaeth unrhyw argymhellion pellach ynghylch y Cynllun. Mae'r Ymchwiliad yn dal i edrych ar y posibilrwydd o gael cynllun gwneud iawn i gynnig atebolrwydd a gwneud iawn i ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.
33. Yn ogystal ag amrywiaeth o adroddiadau a sylwadau eraill gan randdeiliaid am y rheol a ddaeth cyn ac ar ôl argymhelliad yr Ymchwiliad, mae gennym hefyd y fantais o gael ymatebion i'r ymgynghoriad. Cododd chwarter yr ymatebwyr y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben naill ai yn ystod eu sylwadau cyffredinol neu mewn ymatebion i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad, a/neu yn benodol mewn ymateb i Gwestiwn 17 a ofynnodd, "Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Cynllun?". Roedd yr ymatebion yn dangos pa mor eang yw'r pryderon ynghylch sut mae'r rheol yn effeithio ar ymgeiswyr, yn ail-gadarnhau ac yn datblygu ein dealltwriaeth o'r ystod o bobl y mae'n effeithio arnynt.
34. Ymysg yr ymatebion, roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi diwygio naill ai'n galw am ddiddymu'r rheol neu ddychwelyd at ddisgresiwn mewn rhyw ffordd, gan nodi effaith anghymesur honedig y rheol ar ddiodefwyr camdriniaeth, camfanteisio, masnachu pobl a mathau eraill o ymddygiad gorfodol, yn ogystal ag effaith gylchol trawma sy'n deillio o ddiodef trosedd, a defnyddio mecanweithiau ymdopi fel dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau, ar weithgarwch troseddol yn y dyfodol.
35. Codwyd dadleuon hefyd ynghylch y diffyg cymesuredd honedig mewn perthynas â'r rheol, o'i methiant i wahaniaethu rhwng y rhai sy'n diodef o droseddau difrifol sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben am fân droseddau, a'r rhai sydd wedi diodef mân droseddau ond sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben am droseddau difrifol maent wedi'u cyflawni eu hunain.
36. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr yn benodol at y gydberthynas rhwng diodefwyr cam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod a throeddu yn y dyfodol, gyda rhai'n tynnu sylw at

y ffaith bod y rheol yn effeithio'n anghymesur ar ddioddefwyr trais rhywiol sydd, yn anghymesur, yn fenywod ac yn ferched. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at gydberthynas rhwng dioddefwyr troseddau sydd wedi dioddef anafiadau i'r pen a'r ymennydd a throsteddu dilynol. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y diffyg disgrisiwn a'r gallu i ystyried amgylchiadau lliniarol mewn perthynas â dioddefwyr masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern. Mynegodd rai hefyd effaith y rheol ar ddioddefwyr a oedd wedi cyflawni troseddau oherwydd materion iechyd meddwl.

## Diwygio posibl y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben

37. Adeg yr adolygiad ac ymgynghoriad 2020, roedd y Llys Apêl, yn yr achos a gafodd ei ystyried wedyn gan y Goruchaf Lys,<sup>14</sup> wedi canfod bod y rheol 'euogfarnau sydd wedi dod i ben' fel y'i diwygiwyd yn 2012 yn gyfreithlon a bod y rhesymeg sy'n sail iddi hefyd yn gadarn yn gyfreithiol. Roedd y dyfarniad hefyd yn gwrthod y syniad y dylai bregusrwydd sy'n arwain at droseddu'n ddiweddarach olygu unrhyw fath o eithriad arbennig o'r rheol, ar y sail bod y system cyfiawnder troseddol yn cynnwys nifer o fesurau i ganiatáu i unrhyw fregusrwydd dioddefwyr gael ei ystyried adeg yr erlyn a'r dedfrydu.
38. Roedd symud ymlaen o sefyllfa lle roedd y rheol ei hun yn gyfreithlon yn ein galluogi i ganolbwyntio ar y pryderon a godwyd a'r galwadau am ddiwygio, ac edrych yn ofalus ar wybodaeth a data i'n helpu i ddeall math a maint yr effeithiau roedd hyn yn eu cael ar hawliadau. Mae'r pryderon am y rheol yn ymwneud yn bennaf â'r rhan eithrio a gyflwynwyd yn 2012. Nid oes gennym dystiolaeth na data ynghylch sut roedd y rheol yn gweithio cyn y newid yn 2012, na sut roedd y disgrisiwn yn gweithio a'r effaith a gafodd ar hawliadau. Fodd bynnag, y disgwyliad yn 2012 oedd y byddai llai o hawliadau'n arwain at wneud taliad neu daliad llawn o ganlyniad i'r eithriad a gyflwynwyd.<sup>15</sup>
39. Er ei bod yn ymddangos nad oedd y dystiolaeth a gawsom (a ddisgrifir ym mharagraff 29 uchod) yn cefnogi honiadau rhanddeiliaid bod y rheol yn cael effaith niweidiol ac anghymesur ar rai ymgeiswyr, rydym yn deall bod hwn yn bwnc emosiynol ac yn peri pryder i'r rheini sy'n cefnogi ac yn cynrychioli grwpiau penodol o ddioddefwyr. Fel rhan o'n hadolygiad, fe wnaethom ystyried yn ofalus ystod o ddiwygiadau posibl, gan gynnwys newidiadau a argymhellwyd gan rhanddeiliaid, er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Trafodir y meysydd hyn isod ac maen nhw'n cynnwys:
- cyflwyno esemptiadau i'r rhan eithrio o'r rheol, drwy gyfeirio at ddsbarthiadau penodol o ddioddefwyr, fel na fyddai pob hawliad yn cael ei wrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben;

<sup>14</sup> R (A and B) v CICA [2018] 1 WLR 5361, Gorffennaf 2018

<sup>15</sup> Getting it right for victims and witnesses, Papur Ymgynghori CP3/2012, Ionawr 2012, paragraff 208

- diwygio telerau rhan eithrio o'r rheol drwy gyfeirio at y math o euogfarn, i leihau nifer yr hawliadau, fyddai'n cael eu gwrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben;
- dileu'r rhan eithrio o'r rheol, fel na fyddai unrhyw hawliadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben.

40. Wrth ystyried diwygiadau posibl i bob agwedd ar y Cynllun, roeddem o'r farn ei bod yn angenrheidiol ac yn bwysig cadw'n driw i'r egwyddorion allweddol y seiliwyd y Cynllun arnynt: ei fod yn Gynllun cyffredinol sy'n bodoli i gefnogi pob un cymwys sy'n dioddef troseddau treisgar ac sydd wedi dioddef yr anafiadau mwyaf difrifol, a bod iawndal yn gydnabyddiaeth bwysig a chyhoeddus o'u dioddefaint. Mae'r egwyddorion hyn wedi helpu i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gynnal dros dymor hir. Yn unol â rheolau a gofynion cymhwysedd eraill, mae'r rheol bresennol ar euogfarnau sydd heb ddod i ben, gan gynnwys y rhan eithrio, yr un mor berthnasol i bob un sy'n dioddef trosedd dreisgar sy'n gwneud cais i'r Cynllun.

41. Yn yr asesiad o'r effaith a gyhoeddwyd gyda'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi asesu effaith peidio â newid a thri dull o ddiwygio'r rheol. Ar gyfer cyflwyno esemptiadau neu ddiwygio telerau'r rhan eithrio o'r rheol, rydym wedi asesu effeithiau enghreifftiau o newidiadau y gellid eu gwneud. Yn ogystal â'r drafodaeth sy'n dilyn, rydym yn gwahodd safbwyntiau ar bob ffordd o ddiwygio a sut y gellid gweithredu'r diwygiadau.

#### *Dim newid i'r rhan eithrio o'r rheol*

42. Nod y rheol yw cyfyngu ar y cymhwysedd i gael iawndal, er mwyn adlewyrchu maint y niwed a wneir i eraill a chost ymddygiad troseddol i gymdeithas. Mae'n cyflawni hyn drwy ddull graddedig o ddal dyfarndaliadau yn ôl neu eu lleihau ar sail difrifoldeb yr euogfarn, amgylchiadau'r troseddwr a'r mesurau lliniaru perthnasol, sef yr holl ffactorau a fyddai wedi cael eu hystyried yn yr achos a arweiniodd at y penderfyniad ynghylch yr euogfarn a'r dedfrydu. Mae'r Goruchaf Lys wedi penderfynu<sup>16</sup> ei bod yn briodol gosod rheolau ynghylch difrifoldeb troseddau a fydd yn gwneud hawlwr posibl yn anghymwys yn hytrach na chaniatáu i swyddogion hawliadau ddefnyddio disgrisiwn cyffredinol mewn achosion unigol. Dywedodd y Llys fod gan y dull a ddewiswyd fanteision sylweddol o ran eglurder a chysondeb.

43. Daethom i'r casgliad yn flaenorol y byddai gwneud unrhyw newid i'r rheol yn tansellio'r egwyddor graidd bod y Cynllun yn gyffredinol ac yn gweithio'n gyfartal i bawb sy'n dioddef troseddau treisgar, ac y byddai'n arwain at wahaniaethu posibl pe bai rhai ymgeiswyr sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben yn cael eu trin yn wahanol i eraill. Roeddem hefyd yn poeni bod cyflwyno disgrisiwn yn debygol o ddod â chymhlethdod

---

<sup>16</sup> A a B v Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ac arall [2021] UKSC 27, paragraff 90, Gorffennaf 2021

ychwanegol i'r broses gwneud penderfyniadau a'r heriau gweithredol o ran cael gafael ar wybodaeth a thystiolaeth i gefnogi'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Byddai hyn, yn ei dro, yn cynyddu'r amser mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau ynghylch cymhwysedd, a byddai o bosibl yn effeithio'n negyddol ar bob ymgeisydd. Am y rhesymau hyn, mae peidio â newid yn dal yn opsiwn.

### **Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am gadw rhan eithrio o'r rheol heb ei newid?**

#### *Cyflwyno esemptiadau i'r rhan eithrio o'r rheol*

44. Argymhelliad yr Ymchwiliad yn 2018 oedd un o'r cynigion cyntaf ar gyfer newid y rheol a fyddai'n berthnasol i hawliadau a wneir gan grŵp penodol o ymgeiswyr, sef dioddefwyr cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod. Roedd yr Ymchwiliad yn galw am ddiwygio'r rheol i ganiatáu ystyried mewn achosion unigol a oedd rhyw gysylltiad achosol rhwng yr hyn yr oedd yr ymgeisydd wedi'i ddioddef fel plentyn a'r troseddu roedd wedi'i gyflawni. Aeth y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentyndod gam ymhellach yn 2019,<sup>17</sup> gan alw am ddiwygio'r rheol euogfarn sydd heb ddod i ben ar gyfer y sawl sydd wedi goroesi ar ôl cael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant. Roedd rhai o'r ymatebwyr i ymgynghoriad 2020 yn galw am beidio â'i defnyddio ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol neu gam-drin plant yn rhywiol.
45. Yn 2019, parhaodd Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr ar y pryd â'r thema o gynnig newid er mwyn gallu ystyried cysylltiadau achosol wrth droseddoli dioddefwyr a fyddai'n berthnasol i rai grwpiau o ymgeiswyr.<sup>18</sup> Argymhellwyd y dylid cael mwy o ddisgresiwn yn y rheol er mwyn gallu ystyried yr effaith ar yr ymgeisydd sydd wedi wynebu cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol pan oedd yn blentyn a chamfanteisio'n droseddol ar blant, yn ogystal â throseddau eraill sy'n ymwneud â rheolaeth drwy orfodaeth. Roedd tri chwarter yr ymatebwyr a oedd wedi cyfeirio at y rheol mewn ymatebion i ymgynghoriad 2020 wedi ailddatgan effaith y rheol eithrio ar bobl sy'n dioddef camfanteisio, masnachu pobl a cham-drin, ac yn galw am gael disgresiwn eto ar ryw ffurf. Y ddadl oedd y dylai'r Cynllun gydnabod bod trawma cam-drin a chamfanteisio a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gallu arwain at droseddu.
46. Fel y nodwyd yn ymgynghoriad 2020, roedd rhanddeiliaid eraill wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd rhan eithrio o'r rheol yn caniatáu gwahaniaethu rhwng pobl a oedd wedi cael eu gorfodi i droseddu a'r rheini a oedd â mwy o reolaeth dros eu gweithredoedd, ac felly gallai'r rheol gael effaith anghymesur ar ddioddefwyr masnachu pobl neu

<sup>17</sup> Survivor's experience of court and applying for compensation report, Hydref 2019 - <https://www.appgsurvivorscsa.co.uk/court-compensation>

<sup>18</sup> Compensation without re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation, Ionawr 2019 – <http://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/compensation-without-re-traumatisation-the-victims-commissioners-review-into-criminal-injuries-compensation/>

gamfanteisio rhywiol. Roedd eraill wedi tynnu sylw (gan gynnwys mewn ymatebion i ymgynghoriad 2020) at y ffaith nad oedd y rheol yn caniatáu ystyried newidiadau mewn personoliaeth a achosir gan anaf i'r ymennydd.

47. Ystyriaeth bwysig yw sut i weithredu unrhyw eithriad i'r rheol, a sicrhau cysondeb o ran gwneud penderfyniadau. Nid oedd argymhelliad yr Ymchwiliad yn mynd mor bell ag ystyried yn benodol a fydd y llysoedd eisoes wedi ystyried materion cefndirol wrth ddedfrydu troseddwr, neu pa ffynonellau tystiolaeth a allai fod ar gael i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol er mwyn arfer disgrisiwn yn effeithiol, o bosibl ar ôl cyfnod sylweddol o amser. Er mwyn i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol sefydlu unrhyw gysylltiadau achosol rhwng y cam-fanteisio neu'r cam-drin roedd yr ymgeisydd wedi'i ddiodeff a'r drosedd roedd wedi'i chyflawni, neu er mwyn dangos bod ymgeisydd yn cael ei orfodi i droseddu, byddai angen iddo gael tystiolaeth a gwybodaeth fanwl gan yr ymgeisydd yn ogystal â gan yr heddlu ac asiantaethau eraill. Wrth ofyn am y wybodaeth hon, gallai hyn achosi gofid a thrallod i ymgeiswyr, a byddai'n anochel yn oedi'r broses o wneud penderfyniadau i bawb sy'n gwneud cais i'r Cynllun. Gan ddibynnu ar sut y caiff yr esemptiadau eu llunio, byddai arfer disgrisiwn yn y ffyrdd a awgrymir hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wneud dyfarniadau cymhleth a lled-farnwrol, gan gynnwys ynghylch achos ac effaith yn ogystal â materion a fydd eisoes wedi cael eu hystyried gan lys wrth bennu'r ddedfryd ar gyfer yr euogfarnau sydd heb ddod i ben. Mae hyn yn cynyddu'r risg o anghysondeb a allai, yn ei dro, arwain at adolygu ac apelio yn erbyn penderfyniadau.

48. Gellid mynd i'r afael â'r pryderon drwy gyflwyno disgrisiwn ar gyfer grwpiau penodol o ddiodeffwyr yn unig neu ar gyfer euogfarnau a geir o dan amgylchiadau penodol. Byddai modd cyflawni hyn drwy lunio esemptiadau i'r rheol eithrio bresennol, sydd yr un mor berthnasol ar hyn o bryd i bob un sy'n diodeff trosedd dreisgar sy'n gwneud cais i'r Cynllun. Ar sail yr hyn a wyddom o'r set ddata am geisiadau am ymosodiadau rhywiol a'r nifer a wrthodwyd oherwydd y rheol, byddai nifer yr ymgeiswyr a fyddai'n elwa o esemptiad penodol fel yr un a gynigir gan yr Ymchwiliad yn gyfyngedig. Dylid cydbwysu hyn yn erbyn y risg y gallai dull sy'n cynnig esemptiad arbennig i rai, ond nid i bawb, sy'n agored i niwed sy'n arwain at droseddu'n ddiweddarach, greu annhegwch a gwahaniaethu. Y rheswm am hyn yw y gallai ymgeiswyr sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben nad ydynt o fewn yr esemptiadau neu nad ydynt yn elwa o'r disgrisiwn, ddadlau eu bod yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sydd. Mae'n bosibl hefyd y byddai dull gweithredu sy'n cyflwyno disgrisiwn i rai yn golygu o bosibl fod ymgeiswyr sydd wedi cyflawni troseddau difrifol ac annymunol yn gymwys hefyd, oni bai fod troseddau penodol wedi'u heithrio'n benodol fel rhan o'r esemptiad.

**Cwestiwn 2: Beth yw eich barn am argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol y dylid adolygu'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben fel nad yw dyfarniadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn**



**amgylchiadau lle mae euogfarn droseddol ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u profiad o gael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant, ac y dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau?**

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n ystyried mai dim ond i rai ymgeiswyr y dylid ystyried esemptiadau? Os felly, ar ba sail y dylai'r esemptiadau fod a phryd dylai'r disgresiwn fod ar gael?**

**Cwestiwn 4: Beth yw eich barn am unrhyw esemptiadau ac arweiniad ar arfer disgresiwn yn cael eu nodi yn y Cynllun?**

*Diwygio telerau'r rhan eithrio o'r rheol*

49. Mae'r rhan eithrio o'r rheol yng Nghynllun 2012 yn atal ymgeiswyr sydd ag euogfarn sydd heb ddod i ben, y rhoddwyd dedfryd gymunedol neu ddedfryd o garchar iddynt, rhag cael iawndal. Un diwygiad posibl fyddai newid paramedrau'r eithriad, megis drwy beidio â chynnwys dedfrydau digarchar. Nid oeddem yn gallu asesu effaith bosibl newid o'r fath gan nad yw ein set ddata llwyth achosion yn cofnodi'r math o ddedfryd a achosodd i hawliad gael ei wrthod oherwydd euogfarn sydd heb ddod i ben.
50. Yn 2012 pan gyflwynwyd rhan eithrio o'r rheol am y tro cyntaf, y cynnig a ffafriwyd gan y Llywodraeth oedd eithrio pob ymgeisydd ag euogfarn a oedd heb ddod i ben. Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyried eto pa mor gymesur yw'r dull gweithredu hwnnw, cafodd yr eithriad ei gyfyngu mwy, ond dywedodd y Llywodraeth yn gryf na ddylai unrhyw ymgeisydd sydd ag euogfarn sydd heb ddod i ben sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar neu orchymyn cymunedol, allu elwa o'r Cynllun o dan unrhyw amgylchiadau.<sup>19</sup> Adlewyrchir y rhesymeg hon yn y dull graddedig o ddal dyfarndaliadau yn ôl neu eu lleihau yng Nghynllun 2012 sy'n seiliedig ar ddifrifoldeb euogfarnau sydd heb ddod i ben ac sy'n cael ei adlewyrchu gan y ddedfryd a roddir. Mae difrifoldeb trosedd yn cael ei bennu drwy edrych ar y niwed a achoswyd neu y bwriedir ei achosi, a pha mor ar fai (beiusrwydd) yw'r troseddwr. Bydd y ddedfryd a roddir bob amser yn dibynnu ar ffeithiau'r achos unigol, ac mae'r trothwyon yn sicrhau bod dedfrydau cymunedol ac, yn benodol, dedfrydau o garchar yn cael eu cadw ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol.
51. Byddai dileu rhai euogfarnau sydd heb ddod i ben o'r eithriad yn golygu eu bod yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth yn y Cynllun<sup>20</sup> ac y byddai'r dyfarndal yn cael ei ddal yn ôl neu ei leihau oni bai fod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny. Nid yw'r Cynllun yn rhagnodi sut y dylid arfer y disgresiwn, na beth y dylid neu na ddylid ei ystyried. Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn defnyddio system bwyntiau i asesu i ba raddau y gall euogfarn sydd heb ddod i ben gyfrif o ran dyfarndal

<sup>19</sup> Getting it right for victims and witnesses: the Government response, Gorffennaf 2012, paragraff 180

<sup>20</sup> Paragraff 4 Atodiad D Cynllun 2012

yn cael ei roi neu ei leihau. Mae'r system yn seiliedig ar y math o ddedfryd a/neu hyd y ddedfryd a roddir, a'r amser rhwng dyddiad y ddedfryd a dyddiad y mae cais am iawndal yn cael ei dderbyn. Cyn Cynllun 2012, defnyddiwyd y system hon ar gyfer pob euogfarn a oedd heb ddod i ben, ac o ddechrau Cynllun 2012 i'r euogfarnau hynny a oedd heb ddod i ben nad oeddent wedi'u nodi yn rhan eithrio o'r rheol.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn am ddiwygio rhan eithrio o'r rheol i leihau nifer yr hawliadau a fyddai'n cael eu gwrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben?**

**Cwestiwn 6: Beth yw eich barn am arweiniad ar arfer disgrisiwn yn cael ei nodi yn y Cynllun?**

*Dileu rhan eithrio o'r rheol*

52. Y ffordd symlaf o ddiwygio fyddai dychwelyd at reol sy'n caniatáu, ym mhob achos, ddisgrisiwn ynghylch a ddylid lleihau iawndal, ac i ba raddau, yn achos ymgeisydd sydd ag euogfarnau troseddol sydd heb ddod i ben. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ddileu rhan eithrio o'r rheol a gyflwynwyd yng Nghynllun 2012 a dychwelyd i'r sefyllfa a byddai pob euogfarn sydd heb ddod i ben yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth ddewisol y byddai dyfarndal yn cael ei ddal yn ôl neu ei leihau oni bai fod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny.
53. Mae hwn yn opsiwn a gafodd ei ystyried yn ystod yr adolygiad. Fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad y byddai dilyn y llwybr hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth wrthdroi'r egwyddorion a'r rhesymeg sy'n sail i'r eithriad a wnaed yn 2012. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r effaith a gafodd yr eithriad ar hawliadau, gan gynnwys a oedd wedi gweithio yn ôl y bwriad a'r disgwyl, ac i ba raddau, a'r effaith ar y canlyniadau ariannol posibl wrth dychwelyd i reol gyda disgrisiwn llwyr. Y casgliad y daethpwyd iddo ar y pryd oedd mai'r elfen eithrio o'r rheol oedd y dull cywir i'w ddefnyddio i adlewyrchu costau troseddu difrifol i'r gymdeithas ac i'r wladwriaeth.
54. Fel y nodwyd uchod (ym mharagraff 28), nid yw'r Cynllun yn rhagnodi sut y dylid arfer y disgrisiwn, na beth y dylid neu na ddylid ei ystyried; mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn defnyddio system bwyntiau i wneud penderfyniadau ochr yn ochr â'r canllawiau mae wedi'u datblygu. Fe wnaethom ystyried dau ddull o lunio'r disgrisiwn i'w ddefnyddio ar gyfer pob euogfarn sydd heb ddod i ben pe bai'r eithriad yn cael ei ddileu; i roi disgrisiwn heb unrhyw fath o fanylion gweithredu neu i ddisgrifio'r ffordd y dylid gweithredu'r disgrisiwn.
55. Dan Gynllun 2008, rhoddwyd disgrisiwn heb unrhyw fath o fanylion gweithredu, hynny yw, nid oedd dim wedi'i nodi yn y Cynllun. Mabwysiadodd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol bolisi a oedd yn disgrifio'r ffordd a fyddai'n cael ei defnyddio'n gyffredinol, ar ffurf sgôr pwyntiau. Er bod y ffordd wedi'i chynnwys mewn canllawiau i

Gynlluniau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol<sup>21</sup>, nid yw'n rhoi manylion yr hyn a fydd neu na fydd yn cael ei ystyried, a pha bwysoliad y dylid ei roi ar ffactorau penodol wrth benderfynu a ddylid lleihau neu ddal dyfarndal yn ôl oherwydd euogfarnau sydd heb ddod i ben. Mae pa mor eang yw'r disgresiwn yn golygu nad oes modd sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau yn y lle cyntaf ac wrth i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ei adolygu. Nid yw'r dull a ddefnyddir gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn rhwymo Tribiwnlysoedd sy'n delio ag apeliadau a all ystyried ystod ehangach o ffactorau. Mae'r anfanteision yn cynnwys oedi ac ansicrwydd i ymgeiswyr, a chostau ychwanegol i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wrth reoli achosion i'w cwblhau'n derfynol.

56. Dull arall a mwy tryloyw, ac un a fyddai'n hyrwyddo tegwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau, fyddai diffinio'r ffordd o weithredu sydd i'w mabwysiadu yn y Cynllun. Mae'r system bwyntiau a ddefnyddir gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ar gyfer Cynllun 2008 yn fodel posibl; byddai'n nodi'r man cychwyn o ran sut y caiff euogfarnau eu trin ar sail y ddedfryd a roddir. Hefyd, gellid ystyried nodi beth y gellir ac na ellir ei ystyried o ran 'rhesymau eithriadol' i beidio â lleihau neu ddal dyfarndal yn ôl, ac i egluro lle mae'r baich tystiolaethol ac ar bwy mae'n disgyn.
57. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd, gan ddwyn budd i ymgeiswyr drwy eu helpu i ddeall sut bydd y system yn gweithio, a helpu'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol i wneud penderfyniadau teg a chadarn sy'n llai tebygol o arwain at adolygiadau ac apeliadau.

**Cwestiwn 7: Beth yw eich barn am ddileu'r rhan eithrio o'r rheol?**

**Cwestiwn 8: Beth yw eich barn am ddiffinio yn y Cynllun sut dylid arfer disgresiwn?**

---

<sup>21</sup> Er enghraifft, gweler paragraff 15 ac Atodiad 5 y canllawiau allanol i Gynllun 2008 - [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/717272/criminal-injuries-compensation-scheme-2008-eng.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/717272/criminal-injuries-compensation-scheme-2008-eng.pdf).

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

## Y rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben

1. Beth yw eich barn am gadw rhan eithrio o'r rheol heb ei newid?
2. Beth yw eich barn am argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol y dylid adolygu'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben fel nad yw dyfarndaliadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae euogfarn droseddol ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u profiad o gael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant, ac y dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau?
3. Ydych chi'n ystyried mai dim ond i rai ymgeiswyr y dylid ystyried esemptiadau? Os felly, ar ba sail y dylai'r esemptiadau fod a phryd dylai'r disgrisiwn fod ar gael?
4. Beth yw eich barn am unrhyw esemptiad ac arweiniad ar arfer disgrisiwn yn cael eu nodi yn y Cynllun?
5. Beth yw eich barn am ddiwygio'r rhan eithrio o'r rheol i leihau nifer yr hawliadau a fyddai'n cael eu gwrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben?
6. Beth yw eich barn am arweiniad ar arfer disgrisiwn yn cael ei nodi yn y Cynllun?
7. Beth yw eich barn am ddileu'r rhan eithrio o'r rheol?
8. Beth yw eich barn am ddiffinio yn y Cynllun sut dylid arfer disgrisiwn?

## Cydraddoldebau

9. Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o beidio â newid ac ar gyfer pob un o'r diwygiadau posibl a nodir yn yr ymgynghoriad hwn (Atodiad A)? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo'n briodol.

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

# Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (ee, aelod o'r cyhoedd ac ati)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp**, rhwng enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

---



---



---



---

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 5 Awst 2022 at:

Vulnerability Policy Unit  
Victims and Vulnerability Policy Directorate  
Ministry of Justice  
7<sup>th</sup> Floor  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk)

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copiau ychwanegol

Mae rhagor o gopiau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk>.

Gellir gwneud cais am gopiau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan [cics-review@justice.gov.uk](mailto:cics-review@justice.gov.uk).

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ystod hydref 2022. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod y bydd eich ymateb, ynghyd â'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol yn cael ei wneud yn hysbys i'r cyhoedd pan fydd yr Adran yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â'r rheolweithiau ar gyfer yr hawl i weld gwybodaeth (y prif rai yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Mae Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig er mwyn sicrhau tryloywder fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth a beth yw eu barn. Yn ogystal â hyn, gall yr Adran ddewis peidio â thynnu'ch enw/manylion o'ch ymateb yn ddiweddarach, er enghraifft, os ydych yn newid eich meddwl neu'n ceisio cael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os bydd yr Adran o'r farn ei bod er budd y cyhoedd o hyd i'r manylion hynny fod ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych chi am i'ch enw/manylion corfforaethol gael eu datgelu fel hyn, yna fe'ch cynghorir i ymateb yn ddiennw (er enghraifft fel 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd'). Fel arall, efallai byddwch chi'n dewis peidio ag ymateb o gwbl.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/691383/Consultation\\_Principles\\_\\_1\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf)



# Atodiad A: Datganiad am Gydraddoldebau

## Cyflwyniad

1. Dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun), gall euogfarnau sydd heb ddod i ben arwain at ddal dyfarndal ymgeisydd yn ôl neu ei leihau. Mae'r rheol bresennol yng Nghynllun 2012 yn darparu nad yw ymgeisydd yn gymwys i gael iawndal os oes ganddo euogfarn sydd heb ddod i ben am drosedd sydd wedi arwain at un o'r dedfrydau o garchar neu ddedfrydau cymunedol a restrir ym mharagraff 3 Atodiad D y Cynllun. Cyn i'r rheol gael ei newid yn 2012, roedd gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ddisgresiwn i dalu dyfarndaliadau i rai ag euogfarnau a oedd heb ddod i ben lle roedd rhesymau eithriadol dros beidio â dal dyfarndal yn ôl neu leihau'r dyfarndal. Mae'r disgresiwn hwn yn dal i fodoli mewn perthynas ag euogfarnau sydd heb ddod i ben nad ydynt wedi'u nodi yn y rheol eithrio yng Nghynllun 2012.
2. Yn 2020, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr ymgynghoriad ar Adolygu'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol, lle cafwyd esboniad am y rheol bresennol ar euogfarnau sydd heb ddod i ben a sut mae'n gweithio, ac edrychwyd ar yr anawsterau o'i diwygio. Cafodd y rhesymeg ei rhoi dros gadw'r rheol heb ei newid, ar sail y casgliad nad oedd yn bosibl ymrwymo i wneud unrhyw newid heb fod hynny'n arwain at gryn wahaniaethu posibl a her weithredol.
3. Ym mis Awst 2021, datganodd yr Uchel Lys fod telerau'r Strategaeth Dioddefwyr (a gyhoeddwyd yn 2018) wedi creu disgwyliad dilys o ymgynghori ar ddiwygio'r rheol euogfarnau sydd heb ddod i ben. Gorchymynnodd y llys y dylid cynnal ymgynghoriad pellach ynghylch a ddylid diwygio'r rheol yn unol ag argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, nad yw dyfarndaliadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae euogfarnau troseddol ymgeisydd yn debygol o gael eu cysylltu â'u profiad o gael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant.

## Crynodeb o'r diwygiadau posibl i'r polisi

4. Yn ogystal â gwneud dim newid i'r rheol, nodir isod y diwygiadau posibl i'r polisi rydym yn eu hystyried yn yr ymgynghoriad hwn. Er mwyn dangos effeithiau posibl ar gydraddoldeb, rydym wedi darparu enghraifft esboniadol ar gyfer y diwygiadau posibl wrth gyflwyno esemptiadau neu ddiwygio telerau'r rheol.

- **Dim newid i ran eithrio o'r rheol, fel bod hawliadau'n parhau i gael eu gwrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben.**
- **Cyflwyno esemptiadau drwy gyfeirio at ddsbarth penodol o ddiodefwr i'r rhan eithrio o'r rheol, fel na fydd pob hawliad yn cael ei wrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben.** Er enghraifft, diwygio'r rheol<sup>22</sup> fel bod hawliadau am iawndal gan bobl sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben ddim yn cael eu gwrthod yn awtomatig, a gwneud darpariaeth newydd er mwyn gallu ystyried a ddylid dal dyfarndal yn ôl neu ei leihau os oedd cysylltiad achosol rhwng yr hyn yr oedd yr ymgeisydd wedi'i ddiodef fel plentyn a'r troseddu roedd wedi'i gyflawni.
- **Diwygio telerau rhan eithrio o'r rheol drwy gyfeirio at y math o euogfarn, i leihau nifer yr hawliadau a fyddai'n cael eu gwrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben.** Er enghraifft, dileu gorchmynion cymunedol/gorchmynion ailsefydlu<sup>23</sup> ieuencid (paragraffau 3(e) ac (f) yn Atodiad D) o'r rhan eithrio o'r rheol. Byddai hyn yn lleihau nifer yr achosion sy'n cael eu heithrio'n awtomatig ac yn golygu eu bod yn cael eu hystyried dan baragraff 4 Atodiad D (bydd y dyfarndal yn cael ei ddal yn ôl/lleihau oni bai fod amgylchiadau eithriadol i beidio â'i ddal yn ôl neu ei leihau).
- **Dileu'r rhan eithrio o'r rheol, fel na fyddai unrhyw hawliadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig ar sail euogfarn benodol sydd heb ddod i ben.** Byddai hyn yn caniatáu disgresiwn, ym mhob achos, i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ynghylch a ddylid lleihau iawndal, ac i ba raddau, yn achos ymgeisydd sydd ag euogfarnau troseddol sydd heb ddod i ben.

## Tystiolaeth a dadansoddiad

### Data llwyth achosion Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun)

5. Data llwyth achosion sy'n cael ei ddal gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yw'r brif ffynhonnell ddata a ddefnyddir i ddeall sut mae'r Cynllun yn gweithio. Mae'r set ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer ein hadolygiad o'r Cynllun yn cynnwys tua 75,000 o hawliadau a gafodd yr Awdurdod dros dair blynedd (rhwng 1 Ionawr 2016 a 1 Ionawr 2019). Gall yr hawliadau sydd yn y set ddata ddod o fewn unrhyw un o'r categorïau isod:
  - i. **Wedi penderfynu** – Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wedi gwneud penderfyniad ar y cais, ond nid yw hyn wedi'i gynnig eto i'r hawlydd.

<sup>22</sup> Paragraff 3 yn Atodiad D y Cynllun

<sup>23</sup> Paragraffau 3(e) ac (f) yn Atodiad D y Cynllun

- ii. **Ar gynnig** – Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wedi gwneud penderfyniad ar y cais ac wedi cynnig hyn i'r hawlydd, ond nid yw'r hawlydd wedi ei dderbyn na'i wrthod eto.
  - iii. **Wedi datrys** – Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wedi gwneud penderfyniad ar y cais, mae wedi cael ei gynnig i'r hawlydd ac mae'r hawlydd wedi derbyn.
6. Mae pob cofnod achos yn cynnwys gwybodaeth am oedran, rhyw ac ethnigrwydd. Mae hyn wedi cael ei gyfuno â gwybodaeth am y math o drosedd, y math o anaf a'r dyfarndaliadau a wnaed, gan ganiatáu dadansoddiad mewn perthynas â'r tair nodwedd warchoddedig hynny.

### Cyfyngiadau data llwyth achosion y Cynllun

7. Mae'r set ddata wedi'i chyfyngu i achosion yn y tri chategori a ddisgrifir uchod, felly nid yw achosion heb eu datrys yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddadansoddiad. Mae peidio â chynnwys achosion heb eu datrys yn peri risg: drwy dybio bod y dadansoddiad demograffig o achosion heb eu datrys yn debyg i'r achosion sydd wedi'u datrys, nid ydym yn rhoi cyfrif am unrhyw oedi systemig posibl wrth ddatrys achosion rhai grwpiau gwarchoddedig. Petai hyn yn digwydd, byddai'r data a ddadansoddwyd yn tangynrychioli'r hawliadau gan y grwpiau hynny, a gallai hyn ystumio rhai o'r effeithiau a amcangyfrifir arnynt.
8. Nid yw data llwyth achosion y Cynllun yn cynnwys gwybodaeth am nifer o nodweddion gwarchoddedig, felly ni allwn asesu sut y byddai unrhyw newid polisi wedi effeithio ar yr hawliadau dros y cyfnod uchod mewn perthynas â'r canlynol:
- anableded
  - cyfeiriadedd rhywiol
  - crefydd / cred
  - beichiogrwydd / mamolaeth
  - ailbennu rhywedd
  - priodas / partneriaeth sifil
9. Rhaid cael cafeat ar gyfer unrhyw ystyriaethau ynghylch effeithiau, yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar y grwpiau nodweddion gwarchoddedig mae gennym ddata ar eu cyfer. Er nad yw cyfradd a chategori'r hawliadau a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wedi amrywio llawer o flwyddyn i flwyddyn dros y cyfnod dan sylw, ni allwn ragweld gyda sicrwydd beth fydd demograffeg hawlwyr a dioddefwyr troseddau treisgar yn y dyfodol. Nid yw'r set ddata ei hun yn gyflawn eto, a gallai rhai ffigurau newid.
10. Rydym hefyd wedi defnyddio data o ffynonellau eraill er mwyn ystyried ein rhwymedigaethau o ran cydraddoldeb.

11. Byddwn yn diweddarau ein hystyriaethau cydraddoldeb ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Dyletswyddau cydraddoldeb

12. Mae'r ddogfen hon yn cofnodi'r dadansoddiad a wnaed gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y nodir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- **dileu gwahaniaethu anghyfreithlon** - gwahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu anuniongyrchol, gwahaniaethu ar sail anabledd, ac aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf
- **datblygu cyfle cyfartal** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu
- **meithrin cysylltiadau da** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

13. Dyma'r nodweddion gwarchoddedig sydd wedi cael eu hystyried:

- oed
- anabledd
- rhyw
- ailbennu rhywedd
- priodas neu bartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- priodas a phartneriaeth sifil (ond dim ond mewn cysylltiad â nod cyntaf y Ddyletswydd Cydraddoldeb)

## Ystyriaethau cydraddoldeb

### Gwahaniaethu uniongyrchol

14. Nid ydym yn credu y byddai peidio â newid na'r diwygiadau posibl yn yr ymgynghoriad yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb, nac yn golygu bod pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd unrhyw nodwedd warchoddedig.

### Gwahaniaethu anuniongyrchol

15. Rydym yn credu y gallai peidio â newid neu'r diwygiadau posibl effeithio'n fwy cyffredinol ar unigolion sydd â rhai nodweddion gwarchoddedig oherwydd bod rhai

grwpiau gwarchoddedig yn cael eu cynrychioli mewn mathau o droseddwr a dioddefwyr yr ystod o droseddau treisgar sydd o fewn cwmpas iawndal o dan y Cynllun. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon o ran Deddf Cydraddoldeb 2010.

16. Mae peidio â newid a phob un o'r diwygiadau posibl yn cael eu hystyried yn fanylach isod. Er mwyn dangos effeithiau posibl ar gydraddoldeb, rydym wedi defnyddio'r enghreifftiau sydd yn adran crynhoi diwygiadau posibl i'r polisi yn y datganiad hwn, lle y bo'n briodol.

#### *Dim newid i'r rhan eithrio o'r rheol*

17. Mae'r rhan eithrio o'r rheol yn darparu nad yw ymgeisydd yn gymwys i gael iawndal os oes ganddo euogfarn sydd heb ddod i ben am drosedd sydd wedi arwain at un o'r dedfrydau o garchar neu ddedfrydau cymunedol a restrir ym mharagraff 3 y Cynllun. Mae hyn yn fwy tebygol o effeithio ar ddynion a bechgyn, sy'n fwy tebygol na menywod a merched o ddiodeff troseddau treisgar ac o fod ag euogfarnau sydd heb ddod i ben. Yn 2019, roedd 27% o'r troseddwr a gafwyd yn euog yn fenywod, gyda dim ond 9% o'r nifer hon yn cael eu dedfrydu i garchar neu orchymyn cymunedol.<sup>24</sup> Mewn cymhariaeth, yn yr un flwyddyn, dedfrydwyd 22% o droseddwr oedd yn ddynion i garchar neu orchymyn cymunedol.<sup>25</sup> Ar ben hynny, yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 roedd dynion (2%) yn fwy tebygol o ddiodeff troseddau treisgar na menywod (1.3%).<sup>26</sup> Mae tebygolrwydd effaith uwch y rheol bresennol ar ddynion yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan y ffaith bod mwy o ddynion yn derbyn iawndal o dan y Cynllun.
18. Gall y rheol hefyd gael mwy o effaith ar oedolion iau, a oedd yn fwy tebygol yn 2020 o gael eu dedfrydu drwy orchymyn cymunedol neu ddedfryd o garchar na grwpiau oedran hŷn.<sup>27</sup> Ar ben hynny, yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 roedd oedolion rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o ddiodeff trais (3.6%) na'r rheini mewn grwpiau oedran hŷn.<sup>28</sup> Er nad ydym yn gallu dod i unrhyw gasgliadau pendant o'r data hwn, rydym yn gwybod o set ddata'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol fod y rheini rhwng 20 a 29 oed ar ddyddiad y digwyddiad yn cyfrif am 36% o'r rhai a wrthodwyd am euogfarnau a oedd heb ddod i ben, a'r rheini rhwng 30 a 39 oed yn cyfrif am 27% arall.

<sup>24</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020), Statistics on Women and the Criminal Justice System 2019

<sup>25</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020), Statistics on Women and the Criminal Justice System 2019

<sup>26</sup> ONS (2021) The nature of violent crime in England and Wales: Year ending March 2020

<sup>27</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021) Criminal Justice System Statistics publication: Outcomes by Offence 2010 to 2020

<sup>28</sup> ONS (2021) The nature of violent crime in England and Wales: Year ending March 2020

19. Gallai'r rheol hefyd gael ychydig mwy o effaith ar y rheini o grwpiau pobl ddu neu grwpiau ethnig cymysg sy'n cael dedfryd anghymesur am droseddau ditiadwy<sup>29</sup> ac felly gallen nhw fod yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o fod ag euogfarnau sydd heb ddod i ben. Fodd bynnag, dylid nodi nad y bobl sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben yw'r boblogaeth sydd o ddiddordeb yma, ond yn hytrach y rheini sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben sydd hefyd yn ddiodefwr troseddau treisgar. Nid oes gennym ddata ar gyfer y categori hwn ac felly nid ydym yn gallu dod i gasgliadau pendant.
20. Tynnodd ymatebwyr i ymgynghoriad 2020 sylw at effaith anghymesur bosibl y rheol ar fenywod lle mae cysylltiad rhwng eu cam-drin a'u troseddu, er enghraifft drwy orfodaeth o ganlyniad i gamfanteisio rhywiol neu fasnachu pobl, neu newid mewn ymddygiad oherwydd trawma o ganlyniad i ymosodiad rhywiol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at 'The Criminal Injuries Compensation Scheme and Sexual Offences: Research Briefing' a oedd yn nodi ei bod yn cael ei gydnabod yn gyffredinol y gallai'r trawma sy'n gysylltiedig ag erledigaeth rywiol ysgogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol er enghraifft, camddefnyddio sylweddau.<sup>30</sup> Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, rydym yn gwybod bod menywod a merched yn fwy tebygol yn anghymesur na dynion o ddiodefwr ymosodiadau rhywiol o bob math,<sup>31</sup> ac yn amlach na pheidio maen nhw'n dioddef camfanteisio rhywiol pan maen nhw'n blant.<sup>32</sup> Fodd bynnag, y boblogaeth o ddiddordeb yma yw'r rheini sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben sy'n dioddef mathau penodol o gam-drin, nad oes gennym ddata ar eu cyfer, felly ni allwn fod yn sicr ynghylch effaith y rheol bresennol.
21. Yn olaf, tynnodd ymatebwyr i ymgynghoriad 2020 sylw hefyd at y gydbertynas rhwng diodefwr troseddau sydd wedi dioddef anafiadau i'r pen a'r ymennydd, neu'n dioddef gyda phroblemau iechyd meddwl, a throseddu dilynol. Rydym yn gwybod, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, fod 2.5% o oedolion anabl (person sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sydd wedi para neu y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy) wedi profi trais personol, o'i gymharu ag 1.7% o'r holl oedolion 16 oed neu hŷn.<sup>33</sup> Fodd bynnag, nid y bobl sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben yw'r boblogaeth sydd o ddiddordeb yma, ond yn hytrach y rheini sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben sydd hefyd yn ddiodefwr troseddau treisgar felly ni allwn fod yn sicr o effeithiau'r rheol.

<sup>29</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021), Statistics on Ethnicity and the Criminal Justice System 2020

<sup>30</sup> Smith, Olivia, Ellen Daly, a Charlotte Herriott. 2019. "The Criminal Injuries Compensation Scheme and Sexual Offences: Research Briefing"

<sup>31</sup> ONS (2021) Sexual offences victim characteristics, England and Wales: year ending March 2020

<sup>32</sup> Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2022), Child Sexual Abuse in Organised Networks Investigation Report

<sup>33</sup> ONS (2019) Disability and crime, UK: 2019

### *Cyflwyno esemptiadau i ran eithrio o'r rheol*

22. Yr enghraifft a ddarperir yw diwygio'r rheol fel nad yw hawliadau gan ddiodefwr cam-drin plant yn rhywiol (am iawndal am anaf o'r gamdriniaeth a gawsant) sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben yn cael eu heithrio'n awtomatig. Mae hyn yn debygol o fod o fudd i fenywod a merched gan mai nhw gan amlaf sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant. Yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 roedd menywod deirgwaith yn fwy tebygol na dynion o gael eu cam-drin yn rhywiol cyn eu bod yn 16 oed (11.5% o'i gymharu â 3.5%).<sup>34</sup> Mae ymchwil yn awgrymu nad oes digon o fechgyn a dynion yn rhoi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol. Er enghraifft, yn eu hymchwil genedlaethol, daeth Male Survivors Partnership i'r casgliad bod 20% o ddynion a samplwyd wedi cymryd dros 31 o flynyddoedd i ddatgelu eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.<sup>35</sup>
23. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn benodol at y gydberthynas rhwng diodefwr cam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod a throseddu yn y dyfodol, gyda rhai'n tynnu sylw at y ffaith bod y rheol yn effeithio'n anghymesur ar ddiodefwr trais rhywiol sy'n fenywod ac yn ferched gan amlaf. Fodd bynnag, y boblogaeth o ddiddordeb yma yw'r rheini sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben sydd wedi cael eu cam-drin pan oedden nhw'n blant, nad oes gennym ddata ar eu cyfer, felly ni allwn fod yn sicr ynghylch effaith yr enghraifft hon ar y grŵp hwn.
24. Gallai'r cynnig hwn fod o fudd i ddiodefwr ag anabledau hefyd gan fod ymchwil yn awgrymu y gallai cam-drin plant yn rhywiol gael effaith anghymesur arnynt. Mae adolygiad llenyddiaeth gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol sy'n ystyried cam-drin mewn ysgolion preswyl yn nodi bod consensws bod plant anabl mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin yn rhywiol na'u cyfoedion sydd ddim yn anabl.<sup>36</sup>

### *Diwygio telerau rhan eithrio o'r rheol*

25. Mae'r enghraifft a ddarparwyd, i ddileu gorchmynion cymunedol/gorchmynion ailsefydlu ieuentid (dedfrydau cymunedol) o'r rhan eithrio o'r rheol, yn debygol o fod o fudd i ddynion a bechgyn. Yn gyffredinol, yn 2019 cafodd troseddwr gwrywaidd gyfran uwch (9%) o ddedfrydau cymunedol na throseddwr benywaidd (5%).<sup>37</sup> Fodd bynnag, mae merched yn dal i fod yn llai tebygol o gael dedfryd a fyddai'n arwain at euogfarn sydd heb ddod i ben.

---

<sup>34</sup> ONS (2020) Child sexual abuse in England and Wales: year ending March 2019

<sup>35</sup> <https://malesurvivor.co.uk/>

<sup>36</sup> Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2018), Child sexual abuse in residential schools: A literature review

<sup>37</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020), Statistics on Women and the Criminal Justice System 2019

26. Gallai'r cynnig hwn fod o fudd i grwpiau ethnig du a chymysg sy'n cael eu dedfrydu'n anghymesur am droseddau ditiadwy (10% a 4%), o'i gymharu â chyfran y grwpiau hyn yn y boblogaeth gyffredinol (3% a 2%).<sup>38</sup> Gallant felly fod yn fwy tebygol o fod ag euogfarnau sydd heb ddod i ben am ddedfrydau cymunedol.
27. Gall oedolion iau hefyd elwa o'r cynnig hwn gan eu bod yn fwy tebygol o fod ag euogfarnau sydd heb ddod i ben am ddedfrydau cymunedol, gyda throsteddwyr rhwng 18 a 49 oed yn derbyn cyfran uwch o ddedfrydau cymunedol nag oedolion hŷn yn 2020.<sup>39</sup>

### *Dileu'r rhan eithrio o'r rheol*

28. Fel y nodir uchod yn y dadansoddiad ar gyfer 'dim newid', gallai'r rhan eithrio o'r rheol effeithio mwy ar nifer o grwpiau, a gallen nhw felly fod yn debygol o elwa o'i dileu wrth wneud cais i'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys dynion ac oedolion iau sy'n fwy tebygol o ddioddef troseddau treisgar ac o gael eu dedfrydu i garchar neu orchmynion cymunedol; y rheini o grwpiau du a grwpiau ethnig cymysg sy'n cael eu dedfrydu'n anghymesur am droseddau ditiadwy; ac oedolion anabl sy'n fwy tebygol o ddioddef trais personol. Fodd bynnag, ar gyfer yr holl grwpiau hyn, y boblogaeth o ddiddordeb yw'r rheini sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben sydd hefyd yn ddioddefwyr trosedd dreisgar, nad oes gennym ddata ar eu cyfer, felly ni allwn fod yn sicr ynghylch effeithiau'r rheol nac effaith ei dileu.
29. Fel uchod, tynnodd ymatebwyr i ymgynghoriad 2020 sylw at effaith anghymesur bosibl y rheol ar fenywod lle mae cysylltiad rhwng eu cam-drin yn rhywiol a'u troseddu. Rydym yn gwybod fod menywod a merched yn fwy tebygol o ddioddef o bob math o ymosodiadau rhywiol. Fodd bynnag, nid oes gennym ddata ar gyfer y boblogaeth benodol o ddiddordeb – y rheini sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben sy'n dioddef mathau penodol o gam-drin.

## **Aflonyddu ac erledigaeth**

30. Nid ydym o'r farn y bydd yr enghreifftiau hyn o ddiwygiadau posibl yn arwain at aflonyddu nac erledigaeth.

---

<sup>38</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021), Statistics on Ethnicity and the Criminal Justice System 2020

<sup>39</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021) Criminal Justice System Statistics publication: Outcomes by Offence 2010 to 2020s



## **Anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol**

31. Fel y nodwyd uchod, o ran yr enghraifft o ddiwygio posibl i gyflwyno esemptiadau i ran eithrio o'r rheol, gallai hyn fod o fudd i'r rheini ag anableddau gan fod ymchwil yn awgrymu y gallai cam-drin plant yn rhywiol effeithio'n anghymesur ar y grŵp hwn.
32. Mae'r enghraifft o ddiwygio posibl i'r polisi i ddileu'r rhan eithrio o'r rheol yn gallu dwyn budd hefyd i'r rheini sydd ag anableddau. Tynnodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylw at y gydberthynas bosibl rhwng dioddefwyr troseddau sydd wedi dioddef anafiadau i'r ymennydd, neu'n dioddef gyda phroblemau iechyd meddwl, a throseddu dilynol. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, roedd y rheini ag anableddau hefyd yn fwy tebygol o fod wedi profi trais personol, o'i gymharu â'r holl oedolion 16 oed a hŷn.<sup>40</sup>
33. Mae'n dal yn bwysig gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dioddefwyr anabl er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi.

## **Hyrwyddo cyfle cyfartal**

34. Ystyriwyd ym mha ffordd y mae'r hyn enghreifftiau o ddiwygiadau posibl yn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal drwy fodloni anghenion dioddefwyr sy'n rhannu nodwedd benodol, pan fo'r anghenion hynny'n wahanol i angen y rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno.
35. Rydym yn credu y gallai'r enghreifftiau a amlinellir hybu cyfle cyfartal ar gyfer rhai nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, wrth ddiwygio'r rheol fel na wrthodir hawliadau'n awtomatig gan bobl sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oedden nhw'n blant sydd ag euogfarnau sydd heb ddod i ben, gall hyn fod o fudd i fenywod a merched a'r rheini ag anableddau gan fod ymchwil yn awgrymu mai nhw gan amlaf sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol pan maen nhw'n blant.

## **Meithrin perthynas dda**

36. Rhoddwyd ystyriaeth i'r amcan hwn sy'n dangos nad yw'n debygol o fod yn berthnasol iawn i'r enghreifftiau o ddiwygiadau posibl i'r polisi.

## **Gwneud penderfyniadau**

37. Nid ydym yn credu bod peidio â newid dim na'r enghreifftiau o ddiwygiadau posibl i'r polisi a amlinellir uchod yn debygol o arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Fodd

---

<sup>40</sup> ONS (2019) Disability and crime, UK: 2019

bynag, byddwn yn ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb o beidio â newid a'r diwygiadau posibl i'r polisi fel rhan o'r broses i benderfynu a ddylid newid y rheol yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.







E02721419

978-1-5286-3193-8